Cofnodion / Minutes
Y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth / Cross Party Autism Group
18 Hydref 2019
NOVA Prestatyn

1 CROESO
Croesawodd Cadeirydd y Grŵp, Mark Isherwood AC, bawb i gyfarfod 2019 gogledd Cymru y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A MATERION SY'N CODI
Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol.

3 DIWEDDARIAD POLISI
Rhoddodd Meleri Thomas, rheolwr materion allanol Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru, sy'n darparu ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth, y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi diweddar. Nododd Meleri gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru y bydd £3 miliwn o gyllid a ddefnyddir ar hyn o bryd i ariannu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn parhau ar ôl 2021. Hefyd rhoddodd Meleri y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Llywodraeth Cymru o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, sydd wedi'i gohirio tan 2021.

Awgrymodd y rhai a oedd yn bresennol, cyn gweithredu'r Ddeddf ADY, bod yr holl staff angenrheidiol yn derbyn hyfforddiant priodol. Roedd rhai a oedd yn bresennol yn siomedig gyda'r oedi gan fod gwelliannau i'r system addysg yn fater o frys, yn enwedig i blant hŷn sy'n agosáu at ddiwedd oedran ysgol gorfodol. Awgrymwyd bod gwasanaethau eirioli a chynghori annibynnol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, yn hanfodol i alluogi disgyblion i orfodi eu hawliau i addysg briodol.

Codwyd pryderon pellach ynghylch cefnogaeth i ddisgyblion â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, gwaharddiadau amhriodol, cefnogaeth iechyd meddwl a chyflwyniadau awtistiaeth benywaidd.

<u>Camau gweithredu</u>

Cytunwyd y bydd y grŵp yn ysgrifennu at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i godi pryderon ynghylch y materion a godwyd mewn perthynas â'r ffaith bod hawliau plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg briodol yn cael eu gwrthod. Bydd y grŵp yn gofyn iddynt ymgymryd â gwaith achos cyfreithiol yn y maes hwn er mwyn sefydlu cynsail cyfreithiol, gan ymgorffori achosion rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cytunwyd hefyd y bydd y grŵp yn ysgrifennu at Weinidog addysg Llywodraeth Cymru, gan dynnu sylw at brofiadau'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, i ofyn beth y gellir ei wneud i wella cefnogaeth i ddisgyblion awtistig cyn i'r Ddeddf ADY gael ei rhoi ar waith, yn ogystal â sut bydd y system newydd yn cael ei monitro i sicrhau ei bod yn gweithio i ddysgwyr awtistig.

4 LLEISIAU SBECTRWM
Trafododd Willow Holloway ei gwaith parhaus fel Cadeirydd Grŵp Lleisiau Sbectrwm Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru. Dywedodd Willow fod ymgysylltiad priodol ac ystyrlon â defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol gan fod profiad byw y rhai sy'n ceisio cefnogaeth yn anochel yn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r grŵp yn cynnwys hyd at 20 o bobl sy'n cynrychioli ystod o safbwyntiau amrywiol. Y gobaith yw y gall y model hwn o gyd-gynhyrchu a datblygu'r GAI symud i wasanaethau eraill hefyd.

Dywedodd Willow wrth y grŵp sut mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â strategaeth ymgysylltu'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yr oedd hi wedi helpu i'w datblygu ochr yn ochr â'r tîm.

5 SYNIADAU DA AR GYFER CEISIO CYFLOGAETH A'I GYNNAL
Trafododd Ben Morris o Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru ei waith yn cefnogi gofalwyr a phobl awtistig i ddod o hyd i waith, ynghyd â'i brofiadau ei hun fel person awtistig yn y gweithle. Dywedodd Ben, er bod ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn cynyddu, nid yw niferoedd pobl awtistig yn y gweithle yn cynyddu. Dywedodd Ben ei fod wedi gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sylweddoli nad yw eu cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol yn dechrau pan fyddant yn cyflogi rhywun yn unig, ond eu bod yn colli allan ar gyflogi llawer o unigolion awtistig cymwys oherwydd nad ydynt yn gwneud addasiadau i'w prosesau recriwtio.

Mae gwaith Ben hefyd yn cynnwys helpu cyflogwyr i ddeall rhinweddau gweithwyr awtistig a gwerth gweithlu amrywiol. Dywedodd Ben fod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni pan fydd cefnogaeth yn broses ddwyffordd rhwng y gweithiwr a'r cyflogwr, gyda'r naill yn helpu'r llall i ddeall beth sy'n gweithio.

6 GWYBODAETH DDIWEDDARAF GAN CREATEASMILE
Rhoddodd Sharon Bateman y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am waith Creatasmile. Mae'r elusen bellach yn rhedeg Canolfan Addysg Agored, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc awtistig ymgymryd â hyfforddiant ac ennill cymwysterau mewn lletygarwch a garddwriaeth mewn lleoliad bywyd go iawn. Mae hyn nid yn unig yn rhoi lleoliad gwaith i fyfyrwyr ond gall hefyd wella eu sgiliau cyfathrebu cymdeithasol a magu eu hyder. Mae Creatasmile yn ceisio gweithio gydag awdurdodau lleol i ehangu ei wasanaethau fel y gall mwy o blant a phobl ifanc elwa.

7 UNRHYW FUSNES ERAILL
Cododd y rhai a oedd yn bresennol nifer o faterion yn ymwneud â mynediad at ofal iechyd a chymdeithasol priodol ar gyfer pobl awtistig a gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys diffyg gwybodaeth am bobl awtistig oedrannus sy'n mynd ymlaen i ddatblygu cyflyrau fel dementia, ynghyd â mynediad cyfyngedig at ofal iechyd meddwl wedi'i deilwra ar gyfer anghenion pobl awtistig. Awgrymodd un mynychwr fod angen darparu cefnogaeth i'r teulu cyfan, nid dim ond unigolion, ac argymhellodd un arall 'gylchoedd cefnogaeth' fel ffynhonnell gymorth ddefnyddiol.

Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth yng Nghaerdydd ar y 4 Rhagfyr.